

beibl.net

Cofiwch fod gennym yn yr Ofalaeth gopiau o **beibl.net** i'w cael am £10 yn lle £15. Rhowch wybod i mi os ydych eisiau copi.

Anfonwch e-bost os medrwch i john.cilfynydd@btinternet.com; neu os na fedrwch wneud hynny ffoniwch 01286 872390.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Ionawr 10: Bydd Cyfarfod Gweddi Dechrau Blwyddyn yng ngofal yr aelodau am 2.00 o'r gloch.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Ionawr 10: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Cynhelir oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Ionawr 10: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Ionawr 10: Ni fydd oedfa.

CARMEL

Dydd Sul, Ionawr 3: Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch ac oedfa am 2.00 o'r gloch dan arweiniad y Parchg Dewi Morris, Porthmadog.

Y mis nesaf - Deiniolen

Ionawr 3

10.00 a.m. - Y Gweinidog

Ionawr 10

2.00 p.m. - Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn yng ngofal yr aelodau

Ionawr 17

10.00 a.m. - Y Gweinidog
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Cronfa Gronyn

O'r cychwyn cyntaf pwysleisiwyd mai rhan o genhadaeth eglwysi'r Ofalaeth hon fyddai *Gronyn* yn wythnosol ac y byddai ar gael i bawb yn rhad ac am ddim. Ond gan fod amryw wedi mynegi awydd i'n helpu gyda'r gost o'i argraffu penderfynwyd rai blynyddoedd yn ôl erbyn hyn y byddem yn derbyn rhoddion ariannol at y gwaith hwn.

Er mai ar ddechrau'r flwyddyn newydd fel hyn yn unig y byddwn yn tynnu sylw at hyn, mae modd cyfrannu at gostau *Gronyn* unrhyw bryd, beth bynnag sydd fwyaf hwylus. Pwysleisiwn unwaith eto nad ydym yn ddisgwyl i neb gyfrannu ond ein bod yn ddiolchgar wrth reswm am bob rhodd.

Gellir rhoi'r cyfraniad mewn amlen i'r Gweinidog os dymunwch (gan nodi 'Gronyn' ar yr amlen).

Y gobaith yw bod cymaint o bobl â phosibl yn derbyn *Gronyn*. Felly, os gwyddoch am rywun a fyddai'n hoffi derbyn copi yn wythnosol, ond nad yw'n ei dderbyn ar hyn o bryd, cofiwch roi gwybod i ni.

Y mis nesaf - Llanberis

Ionawr 3

10.00 a.m. - Cyfarfod Gweddi yng ngofal y Chwiorydd
5.00 p.m. - Y Parchg Gwynfor Williams

Ionawr 10

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Ionawr 17

10.00 a.m. - Mr John H Hughes
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 664: Dydd Sul, 03 Ionawr, 2016

Gwared â'r goeden

Aeth y Nadolig heibio a mwyaf piti mae'n bryd clirio'r tŷ unwaith eto. Felly, i lawr â'r cardiau. Allan â'r goeden. Ac i'r atig â'r addurniadau am flwyddyn arall.

Fûm i erioed yn or-hoff o'r ddefod flynyddol o roi'r Nadolig a'i liwiau dan glo. Does ond tair wythnos ers i ni eu gosod, ond bydd y tŷ'n edrych yn foel iawn am ddiwrnod neu ddau heb yr addurniadau a'r goleuadau. Ond eu cadw sydd raid. Mi gaf o leiaf edrych ymlaen at weld pa addurn fydd wedi llwyddo i osgo'r hen duniau *Quality Street* a'r hen focsys a fydd yn gartref i'r cyfan tan y Dolig nesaf. Mae yna wastad un belen liwgar neu un bluen eira neu un bugail tlawd sy'n cuddio mewn cornel ac o'r herwydd yn gorfod treulio'r flwyddyn ganlynol mewn drôr ar wahân i weddill yr addurniadau. Nid pob blwyddyn, fodd bynnag, y byddwn ni'n cofio am yr alltudion hyn, ac mae'n ddigon posibl na welodd rhai ohonyn nhw olau dydd ers mwy nag un Nadolig erbyn hyn.

Ond dwi am geisio peidio â bod yn rhy ddigalon eleni wrth roi'r cyfan o'r neilltu am fy mod yn sylweddoli fod yna gymaint o bobl na fydd raid iddyn nhw wneud hyn yr wythnos hon. Nid am nad oedd ganddyn nhw goeden ac addurniadau, ond am eu bod wedi gorfod taflu'r cyfan allan dros wythnos yn ôl oherwydd y llifogydd a ddaeth i ddifetha dathliadau'r Nadolig, a gwaeth na hynny i wneud llanast o'u tai ac i

ddifetha cymaint o'u heiddo. Gwelsom y difrod yng Ngogledd-orllewin Lloegr yn ystod yr wythnos cyn y Nadolig, ond daeth y llifogydd i Ogledd Cymru ac i'n pentrefi ni ein hunain drannoeth yr Ŵyl. A chyda'r coed Nadolig bu raid taflu anrhegion newydd a charpedi a dodrefn a phopeth arall y bu i'r dŵr ei ddifetha. Cydymdeimlwn â phawb a ddiodefodd yr wythnos ddiwethaf.

Ac felly, yn lle cwyno am y drafferth neu'r chwithdod o orfod gwneud y gwaith clirio eleni, diolchwn os oes coeden i'w thafu ac addurniadau i'w cadw. Ac wrth gadw'r trysorau bach lliwgar diolchwn am drysorau mwy sydd gennym yn llenwi ein cartrefi, yn llestri a lluniau a llyfrau, yn deganau a dillad a dodrefn. Ac wrth ddiolch am yr holl gysur a gawn trwy'r pethau hyn, cofiwn nid yn unig am y bobl a gollodd lawer o'u heiddo yn llifogydd y dyddiau diwethaf ond am y miliynau a gollodd y cyfan dan y bomiau yn Syria a gwledydd eraill neu a adawodd y cyfan wrth ffoi o'r manau hynny i chwilio am noddfa ddiogel.

Ac er mor werthfawr y pethau sydd gennym, y trysorau a brynwyd neu a etifeddwyd, a'r petheuach a gadwyd ac a drysorwyd, diolchwn ar ddechrau blwyddyn newydd am y trysorau mwy sydd gennym, yn deulu a ffrindiau, yn iechyd a synhwyrâu, ynghyd â'r trysor mwyaf un, yr Arglwydd Iesu Grist, y trysor na ddifrodir mohono gan na gwyfyn na rhwd na dŵr na than na dim oll yn y byd hwn nac yn y byd a ddaw.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul cyntaf y flwyddyn newydd. Gweddiwn am gymorth a bendith Duw dros fisoedd y flwyddyn newydd hon. A boed bendith Duw ar ein haddoliad bob tro y down ynghyd yn enw yr Arglwydd Iesu Grist eleni eto.

Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch yng ngofal rhai o chwirydd yr eglwys ac oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Parchg Gwynfor Williams, Caernarfon.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Bydd oedfa Gymun am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog.

Ni fydd oedfa yn Nhalybont nac yn Nant Peris heddiw.

Ni fydd oedfa yn Rehoboth heddiw.

Diolch

Diolch yn fawr iawn i bawb am yr holl baratoi ar gyfer yr oedfaon arbennig a gynhaliwyd o fewn yr Ofalaeth dros Wyl y Nadolig. Gobeithio'n fawr fod y cyfan wedi ein galluogi i weld rhyfeddod yr Ymgnawdoliad ac wedi dod â llawenydd i ni trwy ein hatgoffa fod i ni Waredwr yn yr Arglwydd Iesu Grist.

Cofion

Anfonwn ein dymuniadau gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Llifogydd

Daeth tywydd drwg Dydd San Steffan â llifogydd i boeni mwy nag un teulu yn yr ardal, gwaetha'r modd, yn Llanberis a Thalybont yn arbennig. Dymunwn yn dda i bawb sydd yng nghanol y gwaith poenus o geisio cael trefn at eu cartrefi wedi'r difrod a achoswyd gan y llifogydd unwaith eto.

Yn Nhalybont, llifodd y dwr i mewn i gapel Bethlehem. Bydd llawer ohonoch yn cofio nad dyma'r tro cyntaf i'r capel ddioddef oherwydd llifogydd chwaith. Oherwydd y difrod, ni fydd modd cynnal oedfaon yn y capel na'r festri am rai wythnosu beth bynnag.

Ar hyn o bryd mae peiriannau'n sychu'r capel, ac wedi i hynny gael ei wneud bydd angen glanhau a gosod carpedi newydd ac ail wneud y gegin ac ati.

Pwyllgor Gwaith y Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Pwyllgor Gwaith Cyfarfod Chwarter Gogledd Arfon, a oedd i'w gynnal ym Methlehem, Talybont fore Mawrth yr wythnos hon, yng nghapel Nant y Benglog am 10.00 o'r gloch.

Marwolaeth

Gyda thristwch y clywyd am farwolaeth Mr Thomas John Roberts, 83 Maes Padarn, Llanberis yn Ysbyty Gwynedd ddiwrnod olaf y flwyddyn. Roedd yn 89 meddyd oed. Cydymdeimlwn â'i bnod, Eileen a'u plant, Reg, Ronnie a Iona, a'r teulu cyfan yn eu colled fawr.

Nid wrth ei enw llawn, ond wrth yr enw 'Twm John' y mae'r rhelyw o bobl yr ardal wedi arfer cyfeirio ato, wrth gwrs. I lawer o bobl, cyfraniad Twm John at Glwb Pêl Droed Llanberis, ac yn fwyaf arbennig ei waith diflino am yn agos i hanner can mlynedd gyda thimau plant ac ieuencid y pentref a ddaw i'r meddwl wrth gofio amdano. Rwyf fi fy hun yn falch o gael dweud fy mod yn aelod o'r tim cyntaf un a sefydlwyd ganddo i chwarae yn nhymor cyntaf Cynghrair Ieuencid Gwyrfa. Bydd eraill yn ei gofio fel cydweithiwr yn y gwahanol fannau y bu'n gweithio ynddyn nhw dros y blynyddoedd.

Yn Capel Coch, roedd yn aelod ffyddlon a gwerthfawr. Am flynyddoedd lawer, ef a fyddai'n sefyll yng nghyntedd y capel neu'r festri i groesawu pawb i'r oedfaon. Roedd yn cymryd y cyfrifoldeb hwnnw o ddifrif, a'i wên a'i sgwrs bob amser yn gynnes. Dros y blynyddoedd, roedd ei groeso arbennig yn gwneud i aelodau ac ymwelwyr deimlo'n gartrefol. Mae wedi bod yn chwith iawn hebdo ers i'w afiechyd ei rwystro rhag dod i'r oedfaon.

Roedd yn aelod o Bwyllgor yr Ofalaeth cyn i mi ddod yma'n weinidog, ac ers rhai blynyddoedd bellach, bu'n llywydd y Pwyllgor hwnnw. Roedd yn cyfrif hynny'n ffrind fawr, a bu'n hynod o gefnogol i'r gwaith ac i minnau fel weinidog. Ac er iddo fethu â dod i'r pwyllgorau'n ddiweddar, roedd ganddo ddiddordeb mawr o hyd yn y cyfan a ddigwyddai o fewn yr Ofalaeth ac yn Capel Coch yn arbennig.

Cynhelir ei angladd brynhawn Iau nesaf, Ionawr 7, yn Eglwys Sant Padarn, am 1.30 o'r gloch, ac yn Amlogsgfa Bangor am 3.00 o'r gloch.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mrs Eirlys Williams, 3 Pentre Helen, Deiniolen, sydd ar hyn o bryd yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, Mr Owen (Now) Jones yn Llangefni ar Ragfyr 12.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Rhiannon Williams, 15 Cae Gwigin, Talybont yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer, Mrs Peggy Williams, yn Llanrug ddydd Llun diwethaf, Rhagfyr 28.

A chydymdeimlwn yr un modd â Mrs Bet Hughes, Awel y Mynydd., Deiniolen yn ei phrofedigaeth hithau o golli ei chwaer yng nghyfraith, Mrs Eleanor Williams, Cartref y Foelas, Llanrug (Llanberis gynt) ar Ragfyr 16.

Cyfraniadau Ariannol

Bydd llyfrau ariannol Cefnywaun am 2015 yn cau ddydd Sul nesaf, Ionawr 20.

Diolch am yr holl gyfraniadau ariannol a dderbyniwyd gan aelodau eglwysi'r Ofalaeth yn ystod y flwyddyn.

Pwyllgor yr Ofalaeth

Cynhelir Pwyllgor yr Ofalaeth yn y flwyddyn newydd, tua diwedd Ionawr neu ddechrau Chwefror.

Awgrymir nos Fawrth, Ionawr 26 neu nos Fercher, Ionawr 27 fel dyddiadau posibl. Os yw'r naill neu'r llall yn amlwg yn anhwylyd i un neu ragor o'r eglwysi, rhwch wybod i'r Gweinidog os gwelwch yn dda.